

Caban Y Faenol CYF

Asesiad Risg

Yng Nghaban Y faenol, rydym yn deall pwysigrwydd sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer gwirio bod ein lleoliad yn lle diogel i blant, staff ac ymwelwyr. Mae ein gweithdrefnau asesu risg yn rhan o broses barhaus i atal a lleihau'r posibilrwydd o unrhyw ddigwyddiad peryglus. Maent yn gyfrifoldeb yr holl staff fel rhan o'u dyletswyddau dyddiol.

Yn unol â'n dyletswyddau o dan Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, mae'n ofynnol i Caban y Faenol gynnal asesiadau risg rheolaidd a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol sy'n codi o'r rhain yn unol â darpariaethau a nodir yn y polisi Iechyd a Diogelwch ac mewn mannau eraill.

Mae'r Rheolwr yn gyfrifol am sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau, eu cofnodi a'u monitro'n effeithiol. Cynhelir adolygiadau pan fydd unrhyw newid i offer neu adnoddau, unrhyw newid i safle'r lleoliad, neu pan fydd anghenion penodol plentyn neu ymwelydd arall yn golygu bod angen hynny.

Mae'r Rheolwr hefyd yn gyfrifol am gynnal unrhyw adolygiadau angenrheidiol neu wneud newidiadau i bolisiâu neu weithdrefnau'r lleoliad yng ngoleuni unrhyw risgiau posibl y mae ef neu aelodau eraill o staff yn eu darganfod.

Bydd archwiliad gweledol o'r offer a'r adeilad cyfan - dan do ac yn yr awyr agored - yn cael ei gynnal bob dydd. Bydd hyn, fel arfer, yn cael ei wneud gan aelod dynodedig o staff wrth gyrraedd y lleoliad a bydd yn cael ei gwblhau cyn i unrhyw blant gyrraedd.

Yn ystod y sesiwn, bydd staff yn wiliadwrus ac yn ymwybodol yn barhaus o unrhyw risgiau posibl i iechyd a diogelwch sy'n deillio o;

- Amgylchedd y lleoliad, dan do ac yn yr awyr agored
- Pob arwyneb, dan do ac yn yr awyr agored
- Yr holl offer a ddefnyddir gan y plant neu'r staff.

Wrth ddarganfod perygl, bydd staff yn cymryd pob cam angenrheidiol i wneud eu hunain a phobl eraill a allai gael eu heffeithio yn ddiogel. Yna byddant yn hysbysu'r Rheolwr ac yn sicrhau bod cofnod yn cael ei wneud yn y Llyfr Cofnodi Digwyddiad.

Mae'r Rheolwr wedyn yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd.

Cofnodi Damweiniau, Digwyddiadau a Digwyddiadau Peryglus

Caban Y Faenol CYF

Bydd pob damwain, digwyddiad a digwyddiad peryglus yn cael eu cofnodi naill ai yn y Llyfr Cofnodi Digwyddiad neu'r Llyfr Cofnodi Damweiniau ar yr un diwrnod ag y digwyddodd y digwyddiad.

Rhaid i gofnodion gynnwys:

- Amser, dyddiad a natur y digwyddiad, damwain neu ddigwyddiad peryglus.
- Manylion y bobl dan sylw.
- Math, natur a lleoliad unrhyw anaf a gafwyd.
- Y camau a gymerwyd a chan bwy.
- Llofnod yr aelod o staff a fu'n delio â'r digwyddiad, unrhyw dystion ac, os bernir bod angen, adlofnod gan rieni/gofalwyr y plentyn neu'r plant dan sylw.

Dylai staff hysbysu rhieni/gofalwyr y plentyn neu'r plant dan sylw ar ddiwedd y sesiwn y cynhaliwyd y digwyddiad ynddi. Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo cyn gynted â phosibl.